

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2016/17

YSTADEGAU

Mae'r ystadegau canlynol i'w gweld ar wefan yr Adolygiad Blynyddol drwyddi draw

- **629** o ymrwymadau mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw wedi'u cyflawni.
- **14,991** o lythyrau a chardiau a gafwyd gan Dywysog Cymru a Duges Cernyw.
- **61 miliwn** o droeon mae'r fideos ar sianel YouTube y Teulu Brenhinol wedi cael eu gwyllo
- Mae Tywysog Cymru yn sefydlydd neu'n llywydd **424** o elusennau
- **16,523** o filltiroedd a deithiwyd yn y Deyrnas Unedig
- **78** o ddinasoedd, trefi a phentrefi yr ymwelwyd â hwy.
- **43** o siroedd yr ymwelwyd â hwy.
- Mae Eu Huchelderau Brenhinol wedi cyflawni cyfanswm o **88** o ymrwymadau yn ystod eu hymweliadau tramor swyddogol.
- **33,000** o filltiroedd a deithiwyd yn mynd i ymrwymadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor, ac yn teithio'n ôl adref wedyn.
- **8** o wledydd yr ymwelwyd â hwy.
- Mae Duges Cernyw'n gweithredu fel Noddwr neu Lywydd **92** o elusennau
- **£170 miliwn** a godwyd gan Elusennau'r Tywysog eleni.
- **870,000** o bobl ifanc y mae Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi'u cynorthwyo er 1976.
- Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gysylltiedig â **30** o unedau o Luoedd Arfog Prydain a'r Gymanwlad

CRYNODEB

Ar ôl cyflawni dros chwe chant o wahanol ymrwymadau mewn wyth o wledydd yng nghyswllt eu gwaith Gwladol, milwrol, crefyddol ac elusennol, mae Eu Huchelderau Brenhinol wedi bod yn bresennol yn rhai o brif achlysuron dathlu, coffáu a myfyrio'r flwyddyn. Drwy eu helusennau a'u nawddogaethau maen nhw wedi cwrdd â phobl hynod sy'n gwneud cyfraniadau gwirioneddol eithriadol i les y Genedl. Rôl y Teulu Brenhinol yw gwasanaethu pobl Prydain Fawr a'r Teyrnasoedd mewn llawer o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys tynnu sylw at faterion cenedlaethol a rhyngwladol pwysig. Yn ogystal â chynorthwyo Ei Mawrhydi'r Frenhines ym mlwyddyn ei phen-blwydd yn 90 oed, parhaodd y Tywysog a'r Dduges i dynnu sylw at heriau a oedd yn amrywio o'r amgylchedd, cydlyniant cymdeithasol a llythrennedd i oddefgarwch crefyddol, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol. Cawsant gyfle hefyd i ddathlu rhai o brif ddigwyddiadau'r wlad, gan gynnwys y Gemau Olympaidd yn Rio, Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop a hyd yn oed marathon yr oedd yr Uwchgaptin Tim Peake yn ei redeg yn y gofod er budd Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Eleni yn unig, mae Elusennau a Sefydliadau'r Tywysog wedi codi £170 miliwn. Am gyfnod o ddeugain mlynedd a mwy gweledigaeth y Tywysog a'i barodrwydd i gyfrannu ei amser a'i incwm personol o Ddugaeth Cernyw sydd i raddau helaeth wedi ei gwneud hi'n bosibl i'r elusennau hyn gael eu creu ac wedi hwyluso'u gwaith codi arian wedi hynny. Mae'r elusennau'n cynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog sydd wedi dychwelyd dros £1.4 biliwn mewn gwerth yn ôl i gymdeithas dros y degawd diwethaf drwy helpu pobl ifanc ddifreintiedig. Un arall o'r elusennau yw Tŷ Dumfries, sydd eleni'n dathlu deg mlynedd ers ei sefydlu ac sydd bellach yn cyflogi dros 200 o bobl mewn swyddi llawn amser a rhan amser, sy'n golygu mai'r tŷ yw'r ail gyflogwr mwyaf yn Nwyrain Ayrshire ar ôl y cyngor. Heb fuddsoddiad y Tywysog, ni fyddai gymaint o gyflawniadau ardderchog yr elusennau hyn wedi bod yn bosibl.

Mae cyfieithiad yn dilyn o eiriau Tywysog Cymru: "*Eleni, rydym wedi oedi i gofio am adegau pwysig yn hanes y genedl, fel canmlwyddiant Brwydr y Somme a'r trychineb arswydus yn Aberfan hanner canrif yn ôl.*"

Wrth i ni gofio am yr adegau hyn yn ein gorffennol, a darganfod pethau newydd ar hyd a lled y wlad, mae fy ngwraig a minnau'n cael ein syfrdanu'n gyson ac

yn teimlo'n wylaidd wrth weld y gwaith anhygoel mae gymaint o bobl yn ei wneud er lles pobl eraill."

Llundeiniwr y Degawd

Ym mis Medi, dyfarnwyd Ei Uchelder Brenhinol yn 'Llundeiniwr y Degawd' (*Londoner of the Decade*) yn seremoni wobrwyo Progress 1000 y papur newydd *Evening Standard*. Wrth gyhoeddi'r dyfarniad canmolodd y Golygydd ar y pryd ymrwymiad y Tywysog yn y tymor hir i faterion a oedd yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, ffynonellau bwyd, bioamrywiaeth a chydlyniant cymdeithasol.

Shakespeare

Ym mis Ebrill, aeth Tywysog Cymru i ymweld â New Place, sef y cartref lle bu William Shakespeare yn byw fel oedolyn am bedair blynedd ar bymtheg. Cafodd y Tywysog gyfle i weld arddangosfa newydd yn sôn am fywyd y teulu ac aeth o amgylch eglwys Holy Trinity lle mae bedd Shakespeare. Yn hwyr yr un dydd, aeth y Tywysog, sy'n Llywydd y Royal Shakespeare Company, a'r Dduges i weld y cwmni'n perfformio '*Shakespeare Live! From the RSC*', sef digwyddiad arbennig yn nodi'r 400 o flynyddoedd ers marwolaeth y dramodydd, a oedd yn cynnwys perfformiad annisgwyl gan y Tywysog o'r ymson '*To Be or Not To Be*' o'r ddrama Hamlet.

Gwasanaeth y Gymanwlad

Ym mis Mawrth, ymunodd Eu Huchelderau Brenhinol â'r Frenhines ac Uwchaelodau'r Teulu Brenhinol yn y gwasanaeth blynyddol yn Abaty San Steffan o ymlyniad i'r Gymanwlad (*Commonwealth Observance Service*). Nod y diwrnod hwn o ymlyniad i'r Gymanwlad yw dathlu undod, amrywiaeth a chysylltiadau'r Gymanwlad fodern a hybu gwell dealltwriaeth o gyflawniadau a rôl y Gymanwlad, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Y gwasanaeth hwn o ymlyniad yw'r dathliad aml-ffydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Pwyslais y gwasanaeth eleni oedd 'Cymanwlad o Greu Heddwch'.

Yn hwyrach y noson honno, roedd Eu Huchelderau Brenhinol yn cynrychioli Ei Mawrhydi'r Frenhines mewn Derbyniad i'r Gymanwlad yn Nhŷ Marlborough,

dan arweiniad Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymanwlad. Roedd y derbyniad yn gyfle i’w Huchelderau Brenhinol a rhai o gynrychiolwyr gwledydd y Gymanwlad i ddod at ei gilydd i ddathlu amrywiaeth helaeth y Gymanwlad a’r gwerthoedd mae’r gwahanol wledydd yn eu rhannu, sef heddwch, democratiaeth a chydraddoldeb.

Crynodeb o’r Incwm a’r Gwariant

Mae’r Adolygiad Blynyddol yn cynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, a’i nod yw rhoi darlun cyffredinol o waith a rolau Eu Huchelderau Brenhinol.

Mae’r adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am waith swyddogol, seremonïol ac elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw, am eu hymweliadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig a’r byd, ac ystadegau pwysig am yr Aelwyd – gan gynnwys data ariannol ac amgylcheddol.

Mae’r data ariannol hefyd yn cynnwys costau swyddogol Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, y mae Tywysog Cymru’n gyfrifol amdanyh nhw.

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol ffurfiol, mae Tywysog Cymru, gyda chymorth ei wraig Duges Cernyw, yn ceisio gwneud popeth posibl i wneud gwahaniaeth ac i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac ar hyd a lled y byd. Mae’n bosibl rhannu ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn ddwy ran: cyflawni dyletswyddau Brenhinol i gefnogi’r Frenhines ac ar ran Ei Llywodraethau, a chynorthwyo achosion elusennol a sifil sy’n hybu canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol.

Mae rhagor o fanylion am yr holl agweddau ar rôl a gwaith Eu Huchelderau Brenhinol i’w cael yn www.princeofwales.gov.uk.

UCHAFBWYNTIAU

MYND O GWMPAS

Fel rhan o’u gwaith o gefnogi Ei Mawrhydi’r Frenhines, mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw’n mynd bob blwyddyn i ymweld â dinasoedd, trefi a phentrefi ar hyd a lled Prydain a Gogledd Iwerddon, gan gydnabod a chlodfori llwyddiannau a chyflawniadau a chynnig anogaeth. Eleni, aeth y Tywysog a’r Dduges i 43 o siroedd a 78 o ddinasoedd, trefi a phentrefi. Gwelodd y Tywysog a’r Dduges waith rhyfeddol elusennau a mentrau cymunedol, ac aethant i ymweld â gwyliau, busnesau a sioeau lleol.

Poundbury

Ym mis Hydref 2016 aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw gyda’r Frenhines a Dug Caeredin i ymweld â Phoundbury. Roedd yr achlysur yn benllanw’r gwaith ar Sgwâr y Fam Frenhines, a daeth miloedd o bobl yno i ymuno yn y dathliadau wrth i’w Mawrhydi ddadorchuddio cerflun o’r Fam Frenhines gan y cerflunydd Philip Jackson. Roedd hwn yn achlysur pwysig yn oes Poundbury – estyniad trefol i dref Dorchester a adeiladwyd yn unol ag egwyddorion y dull cynaliadwy o ddylunio a chynllunio trefi mae Tywysog Cymru’n ei argymhell.

Dechreuodd y gwaith ar Poundbury yn 1993 er mwyn creu rhan drefol newydd i dref Dorchester sy’n rhoi pobl, yn hytrach na cheir, yn sylfaen i’r broses ddylunio. Mae adeiladau masnachol, mannau preswyl a chyfleusterau hamdden yn gymysg er mwyn creu cymuned lle mae pobl yn gallu cerdded. Erbyn hyn mae Poundbury yn gartref i 3,000 o bobl sy’n byw mewn cymysgedd o dai preifat a rhai fforddiadwy. Mae’r gymuned hefyd yn rhoi cyflogaeth i 2,100 o bobl ac mae’n gartref i 185 o fusnesau.

“Mae byw yn Poundbury yn rhoi synnwyr cadarn i mi o berthyn i gymuned. Gallaf gerdded i’r gwaith ac i gyfarfodydd gyda’r busnesau lleol rwy’n rhwydweithio gyda nhw. Gallaf gerdded i’r siopau, y caffis a’r tai bwyta. Mae prif siop fy musnes yn Poundbury ac mae deg o siopau eraill gennym ar hyn o bryd mewn rhannau eraill o’r Deyrnas Unedig felly rwy’n treulio llawer o amser yn y car. Mae peidio â gorfod defnyddio fy nghar pan rydw i gartref yn bwysig iawn i mi. Fedraf i ddim dychmygu byw yn unrhyw le arall nawr. Rwy’n

hoff iawn o'r cymysgedd o dai a busnesau sy'n denu pobl o wahanol fathau ac mae bod yn aelod o Gymdeithas Preswylwyr Poundbury'n rhoi digon o gyfle i mi gymysgu â thrigolion eraill y dref." Cyfieithiad o eiriau Kate Atkinson, Perchennog y cwmni Bridal Reloved

Dyfnaint a Chernyw

Ym mis Gorffennaf, aeth Dug a Duges Chernyw (sef eu teitlau yng Nghernyw) i Gernyw i gyflawni nifer o ymrwymadau ym mhenrhyn De-orllewin Lloegr. Ar y diwrnod cyntaf, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i dref Penzance lle yr agorodd Ei Huchelder Brenhinol neuadd St John ar ôl y gwaith ailwampio arni, ac agorodd Ei Uchelder Brenhinol Bwll Nofio Awyr Agored y Jubilee a adnewyddwyd ar ôl difrod mawr mewn storm y llynedd. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol ymlaen wedi hynny i theatr y Minack, sydd ar frig y clogwyni ym Mhorthcurno, i fwynhau perfformiadau a oedd yn cynnwys rhannau o opera 'A Mid-Summer Night's Dream' gan Britten a'r ddrama gerdd 'Lighthouse Keeper's Lunch'.

Aeth Ei Huchelder Brenhinol yn ei blaen wedi hynny i'r ganolfan lle mae placiau glas eiconig y mudiad English Heritage yn cael eu cynhyrchu â llaw, ac fe gafodd hi gyfle hyd yn oed i roi cynnig ar baentio ei harwydd ei hun. Teithiodd Y Dug a'r Dduges y diwrnod canlynol i Borth Isaac i gwrdd ag aelodau o'r gymuned leol; cast y gyfres deledu 'Doc Martin'; y cogydd enwog Nathan Outlaw; ac aelodau o bartneriaeth *The Ideas* a ddaeth i sylw Ei Huchelder Brenhinol yn gyntaf yn ystod Ymweliad Brenhinol Swyddogol â gwledydd y Balcanau.

Teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol wedi hynny i Eglwys Gadeiriol Caerwysg i fod yn bresennol yng ngŵyl fwyd Blas y Gorllewin (*Taste of the West Food Fair*), er mwyn cwrdd ag enillwyr gwobrwyon eleni, ac roedd y ddau'n bresennol wedi hynny yng ngwasanaeth dathlu 25 mlwyddiant hosbis plant y De-orllewin yn yr Eglwys Gadeiriol ei hun. Ar ddiwrnod olaf eu hymweliad, aeth Dug Chernyw i ymweld â'r cwmni MVV Environment Devonport Ltd i ddysgu am ei ddulliau arloesol o ddefnyddio gwastraff i gynhyrchu ynni, cyn cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gwasanaethu yng ngorsaf y Llynges Frenhinol HMNB Devonport, ynghyd â'u teuluoedd.

Cymru

Ym mis Mehefin, aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw gyda'r Frenhines a Dug Caeredin i seremoni agor Pumed Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Senedd yng Nghaerdydd, ac i dderbyniad yno hefyd i Aelodau'r Cynulliad. Roedd Anne Denholm, Telynores Swyddogol Tywysog Cymru, yn cymryd rhan yn y seremoni agoriadol.

Yn ystod taith flynyddol Eu Huchelderau Brenhinol o amgylch Cymru ym mis Gorffennaf, agorodd Tywysog Cymru gampws newydd adran peirianeg Prifysgol Abertawe, sef datblygiad newydd sbon ar safle ysblennydd ar lan y môr a ddyluniwyd ar y cyd â Sefydliad y Tywysog dros Adeiladu Cymunedau (*The Prince's Foundation for Building Community*). Aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ymweld hefyd â chymunedau, ffatrioedd, eglwysi, tafarndai a neuaddau pentref ar hyd a lled Cymru, o Aberdaron yn rhan isaf Pen Llŷn yn y gogledd i Abertawe yn y de.

Cynhaliodd y Tywysog a'r Dduges noson o adloniant a ddarparwyd gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, y mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithredu fel ei Noddwr, i ymwelwyr o bob rhan o Gymru yn Llwynywermod, eu cartref ger Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin. Gan fod Duges Cernyw'n noddwr y dathliadau'n nodi canmlwyddiant Roald Dahl, thema'r noson oedd gwaith yr awdur a anwyd yng Nghaerdydd.

50 mlwyddiant Trychineb Aberfan

Yn hwyrach yn y flwyddyn ar yr 21ain o Hydref, aeth Ei Uchelder Brenhinol i Aberfan i fod yn bresennol yn yr achlysuron yn coffáu 50 mlwyddiant trychineb Aberfan pan laddwyd 116 o blant a 28 o oedolion ar ôl i domen sbwriel pwll glo lithro a difrodi Ysgol Gynradd Pantglas yn 1966. Cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd â rhieni rhai o'r plant a fu farw, yn ogystal â goroeswyr, achubwyr ac arweinwyr cymunedol. Gosododd dorch yn y fynwent lle mae'r dioddefwyr wedi'u claddu, plannodd goeden yn yr ardd goffa ar safle'r ysgol ac aeth i dderbyniad ar gyfer y gymuned, pan gafodd gyfle i gyfleu neges oddi wrth Ei Mawrhydi'r Frenhines.

Yr Alban

Roedd hon yn flwyddyn brysur o ymrwymïadau ar hyd a lled y wlad. Ymhlith yr holl ddiwyddiadau oedd gwasanaeth Cyflwyno Senedd yr Alban (*Kirking of the Scottish Parliament*) ar ôl yr Etholiadau ym mis Mai, derbyniad i aelodau a swyddogion senedd yr Alban ac ymweliad â'r llong awyrennau HMS Prince of Wales, yr ail o'r dosbarth Y Frenhines Elizabeth o longau cludo awyrennau sy'n cael ei hadeiladu yn Rosyth.

Ym mis Awst, aeth Dug a Duges Rothesay (sef teitlau'r ddau yn yr Alban) i Chwaraeon yr Ucheldiroedd yn Ballater – ardal lle mae gwaith adfer yn dal i fynd yn ei flaen ar ôl y llifogydd difrifol yn nyffryn afon Dee yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ym mis Hydref, teithiodd Ei Uchelder Brenhinol i Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol y Gaeliaid (Mòd), sef cystadleuaeth ddiwylliannol yn Stornoway.

Cyflawnodd Eu Huchelderau Brenhinol nifer o ymrwymïadau yn ardal Caeredin hefyd gan weld, ymhlith pethau eraill, yr arddangosfa decstiliau '*From Harris to Paris*'. Fel Noddwr Abbeyfield, aeth Dug Rothesay i ymweld â Thŷ Viewlands yn Perth, fel rhan o ddatliadau 60 mlwyddiant yr elusen, ac fe gafodd gyfle i gwrdd â staff cwmni cynhyrchu sboranau Margaret Morrison Ltd.

Ar ôl taith fer mewn awyren i Ynys Bute, aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld â'r cwmni Bute Fabrics, lle y cafodd gyfle i gwrdd â ffoaduriaid o Aleppo yn Syria – rhai o'r ffoaduriaid cyntaf i gael eu cartrefu gan un o awdurdodau lleol y Deyrnas Unedig.

Aeth Dug Rothesay i ymweld hefyd â'r fferm bysgod Marine Harvest yn Loch Leven, sydd wedi ennill ardystiad y cyngor stiwardiaeth acwafeithrin (*Aquaculture Stewardship Council*) am ei safonau amgylcheddol. Wedi hynny cynhaliodd gyfarfod gyda chynrychiolwyr diwydiannau.

Gwnaeth Ei Uchelderau Brenhinol amryw o ymweliadau hefyd â thŷ ac ystâd Dumfries.

“Mae Tŷ Dumfries wedi effeithio'n enfawr ar iechyd a lles disgyblion y Ganolfan Dysgu Gyda Chymorth. Mae'r ymweliadau wythnosol wedi mynd yn rhan annatod o'n cwricwlwm ac maen nhw wedi gwella disgwyliadau'r disgyblion a chodi eu dyheadau. Rhan yn unig o'r ffordd mae'r bobl ifanc yn elwa ar yr ymweliadau yw'r effaith gadarnhaol ar weithgarwch corfforol a'u deallusrwydd o faterion bwyd a chynaliadwyedd. Mae bod yn yr ardal brydferth

lle mae Gardd Addysg Tŷ Dumfries wedi galluogi'r disgyblion i ddangos diddordeb mewn Rhifedd a Llythrennedd, a hynny mewn awyrgylch dawel ymlaciol." Cyfieithiad o eiriau Ann Barbour, Canolfan Dysgu Gyda Chymorth Academi Cumnock yn siarad am fynediad i'r rhaglen Addysg Bwyd

"Mae fy swydd yng ngerddi Tŷ Dumfries wedi rhoi cyfle i mi ddatblygu fy ngyrfa a chael fy hyfforddi, ac i ennill cymwysterau mewn garddwriaeth o'r Gymdeithas Frenhinol (RHS)." Cyfieithiad o eiriau Kris Muir, garddwr lleol sy'n gweithio ar yr Ystâd

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliodd Eu Huchelderau Brenhinol ddiwyddiadau mewn sawl lleoliad. Agorodd Tywysog Cymru ganolfan diogelwch seibr ym Melfast a chapel Presbyteraidd sydd wedi cael ei adnewyddu a'i droi'n ganolfan i'r celfyddydau, yn Portaferry, County Down. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ymweld â ffatri Ulster Carpets a'r siop fwyd Yellow Door yn Portadown, County Armagh. Aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld ag amgueddfa dreftadaeth Urdd yr Orenwyr (*Museum of Orange Heritage*) yn Loughgall, sy'n adrodd stori sefydlu Urdd yr Orenwyr. Mae Llywodraeth Iwerddon wedi ariannu'r ganolfan yn rhannol ac aeth Heather Humphreys, Gweinidog Diwylliant a Threftadaeth Llywodraeth Iwerddon, gyda Thywysog Cymru ar yr ymweliad. Aeth Duges Cernyw ar ymweliad ar wahân â'r cwmni Armagh Cider Company.

Yng nghastell Hillsborough, cynhaliodd Tywysog Cymru gyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, sef Arlene Foster a'r diweddar Martin McGuinness. Aeth y Tywysog hefyd o amgylch y tŷ a'r ystâd i weld y gwelliannau sy'n cael eu gwneud yno, dan arweiniad Ei Uchelder Brenhinol a'r elusen *Historic Royal Palaces*.

Llywyddodd Eu Huchelderau Brenhinol mewn cyngerdd yng nghastell Hillsborough hefyd, yng nghwmni gwesteion o Iwerddon a Gogledd Iwerddon a chynrychiolwyr llawer o wahanol fudiadau. Yn perfformio yn ystod yr achlysur oedd Tim McGarry, y comediwr, Grŵp Gwerin a Thraddodiadol Catrawd Frenhinol Iwerddon, y grŵp o delynorion DIT o Ysgol Cerdd a Drama Dulyn, a Bruno Caprioni'n perfformio rhan o opera Belfast y cyfansoddwr Neil Martin.

Yn Llundain, roedd Tywysog Cymru'n bresennol mewn derbyniad yn siop Fortnum and Mason a oedd yn gyfle i gynhyrchwyr bwyd o Ogledd Iwerddon hyrwyddo cynnyrch yr ardal.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwnaeth Tywysog Cymru recordiad arbennig o gerdd Seamus Heaney '*The Shipping Forecast*' i nodi'r Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol. Bydd y gerdd yn mynd yn rhan o archif o recordiadau mewn canolfan newydd i ymwelwyr ym mhentref genedigol y bardd yn Bellaghy, County Londonderry.

“Mae Ei Uchelder Brenhinol yn ymwybodol iawn o'r sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â'i ymweliadau â Gogledd Iwerddon, ac mae'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y broses o annog pobl i ddangos parch, goddefgarwch a pharodrwydd i ymwneud.” Cyfieithiad o eiriau Fionnuala Jay-O'Boyle, Is-gapteiniaeth Belfast

TEITHIAU BRENHINOL TRAMOR

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n mynd ar ymweliadau swyddogol bob blwyddyn, mewn ymateb i geisiadau gan Lywodraeth Prydain Fawr ac er mwyn gwella a diogelu diddordebau'r Deyrnas Unedig mewn gwledydd tramor.

Iwerddon

Aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw ar ymweliad ag Iwerddon ym mis Mai 2016, mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Prydain. Hwn oedd ail ymweliad swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol ag Iwerddon ac roedd yn ategu llwyddiant Ymweliadau Swyddogol Ei Mawrhydi'r Frenhines ag Iwerddon ym mis Mai 2011 ac ymweliad Arlywydd Iwerddon â'r Deyrnas Unedig ym mis Ebrill 2014.

Yn nhref Donegal, tynnodd Eu Huchelderau Brenhinol sylw at dreftadaeth yr ardal drwy ymweld â chwmni Magee – cwmni lleol sydd wedi bod yn cynhyrchu brethyn yn Nonegal am 150 o flynyddoedd. Yn Athrofa Technoleg Letterkenny, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd ag entrepreneuriaid lleol ac i ddysgu mwy am raglenni trawsffiniol yr athrofa; yn y cyfamser roedd Ei Huchelder Brenhinol wedi mynd i Ysgol Genedlaethol Ballyraine i gwrdd â rhai o'r disgyblion. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar daith hefyd o amgylch y gerddi ysblennydd yng nghastell Glenveagh a sgwrsio gyda phlant sy'n dysgu am beth o'r gwaith cadwraeth sydd ar waith yn y Parc Cenedlaethol. Roedd yr ymweliad yn gyfle i gydnabod y cyfeillgarwch twymgalon sy'n bodoli rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan hybu dealltwriaeth o dreftadaeth y naill a'r llall a thalu teyrnged i'r agweddau gorau ar y ddau.

“Mae'r berthynas rhwng Prydain ac Iwerddon yn well nag erioed o'r blaen erbyn hyn ac mae newid sylfaenol wedi bod yn y berthynas rhwng y cymunedau ar yr ynys hon ers Cytundeb Heddwch 1998. Mae hynny'r un mor amlwg yma ag yn unrhyw le arall. Mae'r ffin bron yn ddibwys erbyn hyn ac mae siroedd Donegal, Derry neu Londonderry a Thyrone yn gweithredu fel un endid economaidd, er mawr lles i drigolion yr ardaloedd hynny. Dim ond cymeradwyo trigolion y tair sir y gallaf i ei wneud am brofi ei bod hi'n bosibl i gymunedau, a oedd eisoes yn rhanedig am gyfnod mor hir, i oresgyn eu gwahaniaethau a chreu bywyd heddychlon a llewyrchus gyda'i gilydd. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd ardaloedd eraill o'r byd, lle mae gwrthdaro dwys wedi

bod, yn efelychu'r esiampl rydych chi wedi'i gosod." Cyfieithiad o ran o araith Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn Athrofa Technoleg Letterkenny, Donegal, Iwerddon

Taith i'r Dwyrain Canol

Clodfori partneriaethau a hybu cyfleoedd a goddefgarwch

Dros gyfnod o saith diwrnod ym mis Tachwedd 2016 ac mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Prydain, cyflawnodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw dros hanner cant o ymrwymadau yn ystod eu hymweliadau swyddogol â Swltaniaeth Oman, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Brenhiniaeth Bahrain. Yn teithio gyda'u Huchelderau Brenhinol oedd Tobias Ellwood AS, y Gweinidog Gwladol dros y Dwyrain Canol ac Affrica yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Pwrpas yr ymweliad oedd tynnu sylw at bartneriaethau'r Deyrnas Unedig yn y rhanbarth – mewn meysydd pwysig fel goddefgarwch crefyddol, cydweithredu milwrol, rôl menywod mewn arweinyddiaeth, cyfleoedd i bobl ifanc a chadwraeth bywyd gwyllt.

Yn ystod yr ymweliad, cynhaliodd Tywysog Cymru drafodaethau gyda Phenaethiaid Gwladwriaethau ac arweinwyr eraill, gan gynnwys Ei Fawrhydi Swltan Qaboos bin Said al Said, Swltan Oman; Ei Uchelder Sheikh Mohammed bin Zayed Al Nahyan, Tywysog Coronog Abu Dhabi a Dirprwy Uwch Bennaeth yr Emiraethau Arabaidd Unedig; Ei Uchelder Sheikh Mohammed bin Rashid Al Maktoum, Llywodraethwr Dubai; Ei Uchelder Sheikh Sultan bin Mohammed Al-Qasimi, Llywodraethwr Sharjah, a'i Fawrhydi Brenin Hamad bin Isa Al Khalifa, Brenin Bahrain.

Croesawyd Duges Cernyw i'r rhanbarth gan bobl flaenllaw a oedd yn cynnwys Tywysoges Haya, gwraig Llywodraethwr Dubai. Derbyniwyd y Dduges hefyd gan Sheikh Fatima, mam Ei Uchelder Sheikh Mohammed bin Zayed Al Nahyan (Tywysog Coronog Abu Dhabi), a elwir hefyd yn Fam y Genedl, ac mae hynny'n anrhydedd prin i ymwelwyr. Ym Mahrain, cafodd y Dduges ei chroesawu gan wraig y Brenin, sef Tywysoges Sabeeka, yn ystod sesiwn o Uwch-gyngor y Menywod.

Taith y Gwanwyn

Atgyfnerthu'r cysylltiadau ag Ewrop yn Rwmania, yr Eidal, Esgobaeth y Pab ac Awstria

Eleni, aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar ymweliadau â Rwmania, yr Eidal, Esgobaeth y Pab ac Awstria, mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Prydain. Rhwng y 29ain a'r 31ain o fis Mawrth, sef y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad blynyddol hwn, aeth Tywysog Cymru ar ymweliad â Rwmania ac ymunodd Duges Cernyw ag ef yn Fflorens ar ddiwrnod cyntaf eu hymweliad â'r Eidal. Pwrpas y daith oedd dathlu cysylltiadau'r Deyrnas Unedig â'r gwledydd hyn a thynnu sylw at bartneriaethau mewn meysydd fel cydlyniant cymdeithasol, cysylltiadau milwrol ac ymladd yn erbyn masnachu mewn pobl.

Yn Rwmania, cynhaliodd Ei Uchelder Brenhinol drafodaethau gyda'r Arlywydd a'r Prif Weinidog ac fe gyflawnodd nifer o ymrwymadau er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd diogelu treftadaeth ddiwylliannol y wlad, yn ogystal â hanes cynhwysfawr Rwmania ym meysydd pensaernïaeth a chreffftwaith. Talodd y Tywysog deyrnged hefyd yng Nghofeb Genedlaethol y wlad, cyn mynd yn ei flaen i gyfarfod yng nghwmni Klaus Iohannis, Arlywydd Rwmania.

Dechreuodd Eu Huchelderau Brenhinol eu taith o amgylch yr Eidal yn Fflorens, lle'r aethant ar ymweliad â Sefydliad Prydeinig Fflorens (*The British Institute of Florence*) i ddathlu canmlwyddiant y sefydliad. Sefydlwyd y sefydliad diwylliannol yn 1917 gyda'r nod o hybu'r berthynas rhwng Lloegr a'r Eidal, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau hyd heddiw ar ffurf yr holl gyrsiau mae'r sefydliad yn eu haddysgu i oedolion a phlant fel ei gilydd.

Mae Duges Cernyw wedi bod yn hyrwyddo llythrennedd ers tro byd ac aeth i ymweld â phlant yn dysgu Saesneg yn y sefydliad, y mae Tywysog Cymru wedi gweithredu fel ei Noddwr am 30 o flynyddoedd bron. Rhoddodd Ei Huchelder Brenhinol ddewis o lyfrau'n rhodd i'r darllenwyr ifanc eu defnyddio yn ystod eu hastudiaethau.

DUGES CERNYW

“Mae’r Dduges yn helpu i roi diwedd ar y distawrwydd ynglŷn â thrais yn y cartref.” Cyfieithiad o eiriau Sandra Horley, Prif Weithredwr yr elusen Refuge

Derbyniad ar Gamdriniaeth yn y Cartref a Phroject y Bagiau Gofal

Ar ôl ymweliad Duges Cernyw ym mis Ionawr 2016 â’r elusen *Safe Lives*, sy’n gweithio i roi diwedd ar gamdriniaeth yn y cartref, y sylweddolodd Ei Huchelder Brenhinol ei bod hi’n awyddus i helpu mewn rhyw ffordd. Ym mis Gorffennaf 2016, arweiniodd y Dduges dderbyniad yn Nhŷ Clarence a oedd yn gyfle i brif randdeiliaid, cynrychiolwyr o’r llywodraeth, ymarferwyr a goroeswyr i ddod at ei gilydd i chwilio am ffyrdd o wella bywydau’r rhai sy’n goroesi a ffyrdd o roi diwedd ar gamdriniaeth yn y cartref.

Ym mis Medi 2016, rhoddodd Ei Huchelder Brenhinol hwb i’r gwaith hwn pan aeth i ymweld â’r elusen Refuge, y darparwr arbenigol mwyaf yn y wlad o wasanaethau achub i fenywod a phlant sy’n dioddef trais yn y cartref a mathau eraill o drais sydd wedi’i seilio ar ryw. Cafodd y Dduges gyfle i gwrdd â rhagor o oroeswyr a gwirfoddolwyr, ac i wrando ar eu storïau. Yna, ym mis Chwefror, aeth y Dduges i ymweld â Women’s Aid, sefydliad sy’n cynnig gwasanaethau achub ar lawr gwlad ac sydd, ar y cyd â Refuge, yn rheoli’r llinell gymorth genedlaethol i bobl sy’n dioddef trais yn y cartref, llinell gymorth sydd ar gael bob awr o’r dydd a’r nos.

Eleni, dathlodd Ei Huchelder Brenhinol garreg filltir bwysig arall yn y maes hwn. Cafodd project y Bagiau Gofal (*Care Bag Project*), a ddechreuodd fel cynllun peilot yn 2011, ei roi ar waith yn genedlaethol o’r diwedd. Pwrpas y cynllun yw rhoi llond bag o ddeunyddiau ymolchi i bobl sydd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol eu defnyddio ar ôl eu harchwiliadau meddygol sy’n gallu bod yn brofiadau anodd iawn yn aml. Dechreuodd y cynllun peilot ei waith yn y tair canolfan Havens yn Llundain, sy’n gweithredu fel canolfannau atgyfeirio ar ôl ymosodiadau rhywiol (canolfannau SARC), ac yn sgil llwyddiant y cynllun peilot hwn cytunodd y cwmni fferyllo Boots, sydd wedi’i seilio yn Nottingham, i wneud rhodd o hyd at 13,000 o fagiau gofal bob blwyddyn ac i ddosbarthu’r cyfan i 49 o’r canolfannau SARC ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

“Mae ymateb ein cleientiaid i’r bagiau ymolchi wedi bod yn arbennig o gadarnhaol. Mae sawl un yn synnu pan fyddwn ni’n cynnig y bag iddyn nhw ac ymhlith eu hymatebion mae sylwadau fel ‘Waw, ydi hwn wir i mi?’ a ‘Ydw i’n cael cadw’r cyfan?’ Nid oes gan rai o’r cleientiaid le rheolaidd i gysgu neu i fyw – felly mae cynnig y bag gofal iddyn nhw’n gallu golygu llawer.”
Cyfieithiad o eiriau Jo Delaforce, Metron un o ganolfannau’r Havens.

“Rydyn ni’n ddiolchgar iawn am y ffrainc o gael cwrdd â’r Dduges ac o gael ein gwahodd i’w chartref ar gyfer achlysur mor wych. Mae’n amlwg bod y Dduges yn berson caredig a gofalgar, a’i bod hi’n hynod o hoff o’r plant a oedd wedi ymlacio’n llwyr yn ei chwmni. Byddwn ni’n trysori’r diwrnod hwn am byth.”
Cyfieithiad o eiriau Sophie Dziwinski, o’r elusen Roald Dahl’s Marvellous Children.

“Rydyn ni’n hynod o ddiolchgar i Dduges Cernyw ac i’n grŵp ni o ddiodefwyr am roi o’u hamser i archwilio effeithiau camdriniaeth yn y cartref. Mae’n brofiad niweidiol a thrawmatig ac mae siarad yn agored am eu storïau’n beth hynod o ddewr i’w wneud. Rydyn ni’n hynod o falch y bydd y Dduges yn cwrdd â nhw, ac yn dysgu mwy am ein gwaith ni’n mynd i’r afael â chamdriniaeth yn y cartref.”
Cyfieithiad o eiriau Diana Barran, Prif Weithredwr yr elusen SafeLives.

500 Gair

Rhoddodd y Dduges ei chefnogaeth i’r gystadleuaeth ysgrifennu creadigol *500 Words* ar sianel Radio 2 y BBC am ail flwyddyn drwy gytuno i weithredu fel Beirniad Anrhydeddus. Mae’r gystadleuaeth yn golygu gwahodd plant rhwng pump a 13 oed i gyfansoddi ffuglen wreiddiol nad yw’n hirach na 500 gair. Ym mis Mai, roedd Ei Huchelder Brenhinol yn bresennol yn rownd derfynol y gystadleuaeth yn theatr Shakespeare’s Globe yn Llundain, pan gyflwynodd fedalau aur i’r ysgrifenywyr ifanc buddugol yn ystod y darllediad byw o raglen *Breakfast Show* Chris Evans ar Radio 2. Yn ystod araith, dywedodd Ei Huchelder Brenhinol: (cyfieithiad) “Rwy’n mawr obeithio y bydd pawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth ysbrydoledig hon yn parhau, fel Shakespeare, i fwynhau grym geiriau a hud y broses o wau stori.”

Roald Dahl 100

Fel Noddwr y mudiad Roald Dahl 100, sef blwyddyn genedlaethol o ddathlu canmlwyddiant genedigaeth un o hoff awduron plant Prydain Fawr, cafodd y Dduges gyfle ym mis Gorffennaf i gwrdd â phlant a oedd yn cymryd rhan mewn gweithdy barddoniaeth yn yr Eglwys Norwyaidd yng Nghaerdydd, ac i fwynhau perfformiadau o waith Dahl yng Nghanolfan y Mileniwm. Aeth Ei Huchelder Brenhinol ati hefyd i ddylunio Jar Freuddwydion ym Mharc St James fel rhan o waith celf gyhoeddus y *BFG Dream Jar Trail*. Seiliodd y Dduges ei dyluniad ar ei gobaith y dylai pob plentyn ddysgu i ddarllen ac i ddarganfod pleser llyfrau am weddill eu hoes. Cafodd y Jar Freuddwydion ei gwerthu wedi hynny mewn ocsiwn i godi arian i'r elusen *Roald Dahl's Marvellous Children*.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Arweiniodd Duges Cernyw dderbyniad ym Mhalas Buckingham ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod (*International Women's Day*) ym mis Mawrth 2017, i ddathlu Gŵyl Menywod y Byd. Mae'r Dduges yn gweithredu fel Llywydd Gŵyl Menywod y Byd Canolfan Southbank, sydd erbyn hyn wedi tyfu i fod yn rhwydwaith byd-eang o wyliau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan glodfori cyflawniadau menywod a merched ac archwilio'r pethau sy'n eu rhwystro rhag cyflawni eu potensial. Hon oedd seithfed flwyddyn gŵyl WOW (*Women of the World*), ac mae'n cyrraedd dwy filiwn bron o bobl mewn pump o wahanol gyfandiroedd. Roedd menywod blaenllaw o amryw o genhedloedd yn bresennol yn y digwyddiad, gan gynnwys yr actores Gillian Anderson; yr awdures Kathy Lette a'r entrepreneur Karren Brady.

Worshipful Company of Vintners

Ym mis Ionawr, ymunodd Duges Cernyw ag aelodau a chyn-aelodau Cwmni Anrhydeddus y Gwinwyr (*Worshipful Company of Vintners*) yn neuadd y cwmni anrhydeddus Vintners' Hall yn Llundain, i gael ei gwneud yn lifreiwraig anrhydeddus y cwmni cyn ymuno ag aelodau eraill Llys y cwmni mewn derbyniad. Dyfarnwyd siarter i'r cwmni *Worshipful Company of Vintners* am y tro cyntaf yn 1363, ac mae'n un o'r deuddeg cwmni lifrai (*Twelve Great Livery*

Companies) yn Ninas Llundain. Yn 2013 roedd y cwmni'n dathlu 650 o flynyddoedd ers ei sefydlu. Mae aelodau'r cwmni'n cynnwys dros 500 o ryddfreinwyr a lifreiwyr. Mae gan y cwmni gysylltiadau agos â chymdeithas gwinllannoedd y Deyrnas Unedig (*United Kingdom Vineyards' Association*), ac mae'r Dduges wedi gweithredu fel Llywydd y gymdeithas er 2011.

Noddwr newydd i'r Lloches yn Battersea i Gŵn a Chathod

Aeth y Dduges ar ymweliad ym mis Medi â'r lloches yn Battersea, Llundain, i gŵn a chathod (*Battersea Dogs & Cats Home*), er mwyn agor yr Ysbyty Milfeddygol a'r Ganolfan o Ragoriaeth newydd. Defnyddir y cyfleusterau newydd ar gyfer gwaith hyfforddi dwys, yn fewnol ac yn allanol fel ei gilydd, ac i groesawu grwpiau mawr o ymwelwyr cenedlaethol a rhyngwladol. Wedi hynny, ym mis Ionawr, aeth Duges Cernyw ar ymweliad â'r lloches i gŵn a chathod sydd yn yr hen ran o Windsor, ac fe gyhoeddwyd yn ystod yr ymweliad ei bod hi'n cymryd lle Ei Mawrhydi'r Frenhines fel Noddwr Brenhinol yr elusen. Ar ôl cael ei chroesawu gan gŵn yn ffurfio gosgordd er anrhydedd, tywyswyd y Dduges o amgylch llety'r cŵn a'r cathod ac fe gafodd gyfle i gwrdd â'r staff sy'n gweithio yng nghlinig y lloches. Roedd Beth a Bluebell, y ddau gi mae Ei Huchelder Brenhinol ei hun wedi rhoi lloches iddyn nhw, yn y ganolfan hefyd ac fe roddwyd prawf ar sioncrwydd Beth ar y llain ymarfer yn yr awyr agored.

GODDEFGARWCH CREFYDDOL

Eitem Thought for the Day

Ym mis Rhagfyr, gwahoddwyd Tywysog Cymru i gyflwyno'r eitem *Thought for the Day* ar sianel Radio 4 y BBC. Ei ysbrydoliaeth oedd trydydd adroddiad blynyddol yr elusen *Aid to the Church in Need*, a'i thema oedd erledigaeth grefyddol. Darlledwyd neges gan y Tywysog hefyd ar wasanaeth *World Service* y BBC.

Yn sgil y darllediad, dyfarnodd y pwyllgor rhyngwladol ar Auschwitz (*International Auschwitz Committee*) y Cerflun Coffa i'r Tywysog, sy'n cael ei ddyfarnu i'r rheini sy'n cyfrannu at goffadwriaeth a hybu byd goddefol sy'n cadw meddwl agored.

Roedd recordiad o neges y Tywysog ar gael hefyd drwy'r elusen *Aid to the Church In Need*.

Y Pwyllgor Rhyngwladol ar Auschwitz (*International Auschwitz Committee*)

Cyflwynodd aelodau'r pwyllgor rhyngwladol ar Auschwitz eu Cerflun Coffa i'w Uchelder Brenhinol er mwyn cydnabod ei waith yn gwrthwynebu erledigaeth grefyddol a gwrth-Semitiaeth. Ymhlith y bobl eraill mae'r pwyllgor wedi dyfarnu'r cerflun iddynt y mae'r Pab Francis, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Canghellor Gweriniaeth Ffederal yr Almaen ac Arlywydd diweddar Israel. Cyflwynwyd y dyfarniad i'r Tywysog gan un o'r bobl a oroesodd y cyfnod yn Auschwitz, mewn derbyniad ym Mhalas St James dan arweiniad Ei Uchelder Brenhinol i Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocaust, y mae'n gweithredu fel ei Noddwr.

Yr Eglwys Uniongred Syriaidd

Ym mis Tachwedd 2016, gwireddodd Tywysog Cymru ei addewid i gynulleidfa'r Eglwys Uniongred Syriaidd drwy fod yn bresennol mewn

gwasanaeth i gysegru eu cartref ysbrydol newydd yn y Deyrnas Unedig, sef Cadeirlan St Thomas yn Acton, Llundain.

Yn ystod y gwasanaeth, diolchodd Archesgob yr Eglwys Uniongred Syriaidd yn y Deyrnas Unedig i'r Tywysog am ei ddewrder a'i safbwynt diwyro wrth ddadlau achos Cristnogion sy'n cael eu herlid yn y Dwyrain Canol. Cyfeiriwyd ato fel "Sant Pawl yr 21ain ganrif" am ei ymdrechion diflino'n amddiffyn hawliau Cristnogion i addoli yn y fan lle ganwyd Cristnogaeth a hefyd am ei rôl yn annog pobl o bob ffyrdd i ddeall ei gilydd yn well.

"Mae'n wirioneddol galonogol fod yr Eglwys Uniongred Syriaidd yn llwyddo i ehangu ac atgyfnerthu ei hun ym Mhrydain, er gwaethaf y ffaith fod aelodau o'r Eglwys Syriaidd yn Syria ac Irac, sef eu mamwledydd, yn dioddef mewn ffordd mor arswydus. Mae cysegru eich Cadeirlan fel hyn yn arwydd gadarn fod y dyfodol yn llawn gobaith." Cyfieithiad o ran o araith gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru yn ystod gwasanaeth cysegru Cadeirlan St Thomas yr Eglwys Uniongred Syriaidd, Acton, Llundain.

ELUSENNAU

“Heb gefnogaeth Ymddiriedolaeth y Tywysog, byddwn i wedi mynd ymlaen i ddinistrio fy mywyd, heb allu edrych ymlaen at unrhyw fath o ddyfodol. Yn lle hynny, rydw i’n hapus ac yn gymdeithasol, ac mae fy nyfodol yn edrych yn gyffrous iawn.” Cyfieithiad o eiriau Michelle Brown, Person Ifanc Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Am dros 40 o flynyddoedd, mae Tywysog Cymru wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith o adnabod angen elusennol ac o sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu’r angen hwnnw. Ers dyddiau cynnar Ymddiriedolaeth y Tywysog (*The Prince’s Trust*) yng nghanol yr 1970au, mae nifer ei elusennau wedi cynyddu i’r fath raddau fel eu bod yn cynrychioli llawer o wahanol feysydd sy’n cynnwys yr Amgylchedd Adeiledig, y Celfyddydau, Menter a Busnes Cyfrifol, Pobl Ifanc, Cynaliadwyedd Rhyngwladol a Materion Gwledig.

Moderneiddio’n gyson er mwyn gwireddu canlyniadau

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd adolygiad a oedd yn pwysu a mesur ffurf a swyddogaethau Elusennau’r Tywysog. Mae’r adolygiadau hyn yn digwydd o dro i dro er mwyn sicrhau bod yr elusennau’n dal i gynnig y budd mwyaf i’r bobl y cawsant eu sefydlu i’w gwasanaethu. Ar ôl yr adolygiad, a oedd dan arweiniad cadeirydd annibynnol, cynhaliwyd cynhadledd yn Nhŷ Dumfries gyda chynrychiolwyr o bob un o’r Elusennau’n bresennol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf y disgwyl yw y bydd rhai o’r elusennau’n ffurfio cynghreiriau agosach neu’n cael eu cyfuno er mwyn gweithio’n fwy effeithlon, a bydd rhai eraill yn symud i ddod yn fudiadau mwy annibynnol ac yn cael y statws Nawddogaethau Cychwynnol Brenhinol (*Royal Founding Patronages*). Bydd ‘Elusennau’r Tywysog’ fel grŵp anffurfiol yn cael ei ddiweddarau yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Yn ogystal â sicrhau bod yr elusennau’n gweithredu mor effeithlon â phosibl, bydd y newidiadau hyn hefyd yn datblygu etifeddiaeth sy’n para i waith dyngarol Ei Uchelder Brenhinol am y degawdau nesaf, ac yn sicrhau y bydd anghenion y rhai sy’n elwa ar waith yr elusennau’n parhau i gael eu diwallu.

Mae'r Tywysog yn dal i deimlo'n gryf iawn am yr holl achosion mae'n eu cynorthwyo a bydd yn dal i hyrwyddo'r elfennau hynny o waith elusennol sydd agosaf at ei galon. Mae'n credu bod y newidiadau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau buddiannau pawb sy'n gysylltiedig â'r elusennau yn y tymor hir.

Tŷ Dumfries – Gweithio er lles y gymuned leol

Mae canlyniadau Tŷ Dumfries wedi parhau i fod yn eithriadol. Ym mis Ebrill 2016, agorodd Ei Uchelder Brenhinol Bafiliwn Gardd Gaerog y Frenhines Elizabeth a'r ystafell de newydd mae myfyrwyr Sefydliad y Tywysog dros Greu Cymunedau (*The Prince's Foundation for Building Community*) wedi bod yn gweithio arnynt. Ym mis Mehefin, ffurfiwyd partneriaeth ddeinamig newydd rhwng Ysgol Gerdd Frenhinol yr Alban (*The Royal Conservatoire of Scotland*) a Thŷ Dumfries, ac yn ystod yr un mis neilltuodd Ei Uchelder Brenhinol amser i agor yn swyddogol y ddrysle newydd yn Nhŷ Dumfries. Ym mis Medi, agorodd Ei Uchelder Brenhinol bont newydd ar yr ystâd i helpu cerddwyr i fynd i'r Ardd Goed.

Un o weledigaethau tymor hir y Tywysog oedd y byddai Tŷ Dumfries yn gweithredu fel ysgogiad yn y broses o adfywio'r ardal, drwy'r gwaith ar yr Ystâd ei hun a thrwy waith allgymorth gyda chymunedau'r ardal. Ym mis Medi, ail-agorodd Ei Uchelder Brenhinol Neuadd y Dref yn New Cumnock. Roedd y neuadd yn wreiddiol yn ganolbwynt lle'r oedd y gymuned yn cynnal cyfarfodydd a grwpiau, ond aeth â'i phen iddi a'r bwriad yn 2015 oedd ei dymchwel. Awgrymodd Ei Uchelder Brenhinol y dylai Tŷ Dumfries wneud y gwaith adnewyddu ac adfer, yn unol â'i weledigaeth o adfywio ar sail treftadaeth, ac ar ôl ailagor yr adeilad mae'r gymuned leol yn barod yn ei werthfawrogi'n fawr.

Elusen *In Kind Direct* yn Dathlu ei 20 Mlwyddiant

Bydd elusen Tywysog Cymru *In Kind Direct* yn dathlu ei 20 mlwyddiant eleni. Mae'r elusen yn dosbarthu nwyddau a gafwyd yn rhodd gan gynhyrchwyr a masnachwyr i elusennau yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio o fewn y wlad a thramor. Mae elusennau'r Deyrnas Unedig angen cynnyrch o bob math i'w helpu i gynnig gwasanaethau i bobl mewn angen, er enghraifft, cewynnau i

deuluoedd ifanc sy'n cael trafferth ymdopi, deunyddiau ymolchi i bobl hŷn sy'n teimlo'n ynysig a dillad cynnes i bobl sy'n ddigartref.

Hyd yn hyn, dosbarthodd *In Kind Direct* nwyddau gwerth £170 miliwn a gafwyd gan dros 1,000 o wahanol gwmnïau, i fwy na 8,500 o elusennau. Mae wedi cyflawni hyn drwy ddatblygu partneriaethau tymor hir gyda chwmnïau Prydeinig a rhyngwladol sy'n cynnwys ymhlith llawer o rai eraill: Amazon, P&G, Colgate-Palmolive, ASDA, Kimberly-Clark, Disney a Johnson & Johnson. Mae *In Kind Direct* hefyd yn hyrwyddo cynaliadwyedd – mewn byd lle mae terfyn ar faint o adnoddau sydd ar gael, mae effaith ei waith yn bwerus, yn ymarferol ac yn amgylcheddol, ac mae'n golygu nad yw nwyddau diogel a defnyddiol yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

“Roedd meddwl am fynd yn hunan-gyflogedig ar ôl cyfnod mor hir o fyw ar Gymhorthdal Incwm yn codi digon o ofn arnaf. Roedd gwybod bod rhywun yno i fod yn gefn i mi ac i fy annog yn fath o achubiaeth, ac roeddwn i'n synnu hefyd fod corff yno a oedd yn dangos diddordeb yn nyfodol rhywun o fy oed i! Roeddwn i'n teimlo bod PRIME Cymru'n awyddus i mi lwyddo – roedd hynny'n beth anarferol iawn.” Cyfieithiad o farn Nicola o Faesteg am PRIME Cymru (Menter y Tywysog dros Fenter Pobl Hŷn yng Nghymru), elusen a gafodd ei sefydlu gan Dywysog Cymru yn 2001 i gynorthwyo pobl hŷn i chwilio am waith.

“Mae cael cynnyrch hanfodol oddi wrth In Kind Direct wedi ein galluogi ni i ddyblu nifer y rhaglenni rydyn ni'n eu rhedeg. Mae gwneud hyn wedi achub 60 o bobl ifanc rhag cael eu heithrio'n barhaol o'r ysgol. Mae In Kind Direct yn ein helpu ni i wneud Caint yn sir fwy diogel.” Cyfieithiad o eiriau Bryn Price, Ymddiriedolaeth Pobl Caint (*Kent People's Trust*)

Ymddiriedolaeth y Tywysog – wedi cyfrannu £1.4 biliwn dros y degawd diwethaf yn unig wrth i bobl ifanc barhau i deimlo dan bwysau

Mae gwaith ymchwil newydd gan Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi dangos bod pobl ifanc yn teimlo dan bwysau aruthrol, mewn byd hynod o ansicr. Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth drwy ddefnyddio dathliadau ei 40 mlwyddiant i gynorthwyo mwy o bobl ifanc nag erioed o'r blaen. Yn ystod 2016/17 cynorthwyodd yr elusen bron 57,500 o bobl ifanc, ac roedd canlyniadau tri o

bob pedwar o'r rhain yn gadarnhaol yn nhermau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Er 1976 mae'r Ymddiriedolaeth wedi helpu cyfanswm o 870,000 o bobl ifanc i newid eu bywydau.

Ym mis Gorffennaf, cafodd Tywysog Cymru gyfle i gwrdd â phobl ifanc yn ystod seremoni lansio Canolfan Ymddiriedolaeth y Tywysog yn swyddogol ym Mryste. Roedd y bobl ifanc yn cymryd rhan mewn sesiwn STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) gyda'r Llysgennad Uwchgaptan Tim Peake CMG. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi cyfrannu swm net o £1.4 biliwn at gymdeithas yn ystod y degawd diwethaf.

Ym mis Ionawr, aeth y Tywysog ar ymweliad â Choleg Dinas Caerlŷr, lle y cafodd gyfle i gwrdd â phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn rhaglenni *Achieve a Mosaic* y coleg. Pwrpas yr achlysur oedd ymgorffori'r rhaglen *Mosaic* yn Ymddiriedolaeth y Tywysog, gan amrywio ac atgyfnerthu ei dewis o raglenni i bobl ifanc. Ar ben hynny, gwelwyd gwaith y gangen ryngwladol o Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ymestyn ei gwaith, gan ddechrau gwneud gwahaniaeth amlwg a chynaliadwy mewn gwledydd cyn belled â Barbados ac Awstralia.

Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog hefyd yn defnyddio'r cyfryngau digidol i gyrraedd mwy o bobl ifanc. Yn ogystal ag ennyn diddordeb cannoedd o filoedd o bobl drwy ei sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu sianel ddigidol newydd ym meysydd dysgu a mentora. Mae'r sianel newydd (o'r enw Enterprise) ar gael drwy borth yr Ymddiriedolaeth ar y We (*Prince's Trust Online*) a bydd yn ffordd i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd mwy byth o bobl ifanc a allai fel arall fethu cyfle i newid eu bywydau.

"Mae'r arweiniad a gefais i gan Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi bod yn hynod o werthfawr. Maen nhw wedi rhoi pwrpas i mi, ac wedi fy helpu i wireddu fy syniad bach a newid fy mywyd." Cyfieithiad o eiriau Faye Savory, Person Ifanc Ymddiriedolaeth y Tywysog

Elusen y Mynydd Gwyrddlas (*Turquoise Mountain*) – Partneriaeth newydd gyda Sefydliad Aung San Suu Kyi yn Byrma

Sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol elusen y Mynydd Gwyrddlas yn 2006 i greu swyddi yn Affganistan drwy adfywio Murad Khane, canol hanesyddol dinas

Kabul. Mae gwaith yr elusen wedi ehangu ers hynny, ac mae bellach yn adfywio safleoedd hanesyddol, cymunedau a chrefftau traddodiadol eraill gan greu swyddi, gwella sgiliau a chreu synnwyr newydd o falchder ym mhawb sy'n rhan o'r gwaith. Ers dyddiau cynnar y gwaith yn Affganistan, mae'r gwaith wedi ehangu i gynnwys projectau yn Sawdi-Arabia a Byrma.

Er 2006, mae'r Mynydd Gwyrddlas wedi adfer 113 o adeiladau hanesyddol, wedi hyfforddi dros 5,000 o grefftwyr, wedi casglu amryw o arddangosfeydd mawr ar hyd a lled y byd, wedi trin dros 100,000 o gleifion, wedi gweld cannoedd o fyfyrwyr yn graddio o Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas, ac wedi caniatáu i grefftwyr o bob rhan o'r byd i werthu gwerth £5 miliwn o'u nwyddau.

Eleni, mae gwaith y Mynydd Gwyrddlas yn Affganistan wedi ehangu ar ôl lansio menter werth £2.5 miliwn i warchod y diwylliant.

Yn Byrma, cwblhaodd yr elusen broject adfer yng nghanol tref hanesyddol Yangon, a dechreuodd ar y gwaith o adfywio un o adeiladau eiconig y wlad i dwristiaid.

Drwy weithio gyda Sefydliad Aung San Suu Kyi, mae'r project wedi golygu hyfforddi crefftwyr a diogelu treftadaeth ddiwylliannol Byrma. Yn Sawdi-Arabia, mae'r elusen wedi gweithio gyda 500 a mwy o grefftwyr, y mwyafrif o'r rhain yn fenywod a merched, i helpu i roi bywyd newydd i grefftau llaw'r wlad. Mae eu gwaith eisoes wedi ennyn diddordeb pobl o bob rhan o'r rhanbarth, er lles y crefftwyr eu hunain ac er mwyn sicrhau dyfodol eu sgiliau'n uniongyrchol.

Eleni hefyd agorwyd yr arddangosfa *Turquoise Mountain: Artists Transforming Afghanistan* yn amgueddfa'r Smithsonian, ac mae dros chwarter miliwn o bobl eisoes wedi bod i'w gweld hi.

Cronfa Cefn Gwlad y Tywysog yn lansio Rhaglen Wytwnch newydd

Sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog (*The Prince's Countryside Fund*) yn 2010 mewn ymateb i'r heriau cynyddol mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu wrth i'r pwysau economaidd ar y sector ffermydd teuluol barhau.

Gan mai'r diwydiant ffermio'n aml iawn yw hanfod llawer o gymunedau gwledig, nod y Gronfa yw sicrhau newidiadau sylfaenol yng nghefn gwlad Prydain Fawr. Erbyn dechrau eleni, roedd y Gronfa wedi cynorthwyo dros 200 o brojectau unigol, gan wella rhagolygon busnesau ffermio, hybu economïau cymunedau gwledig a chynorthwyo mewn argyfyngau.

Ym mis Gorffennaf 2016, lansiodd Tywysog Cymru raglen wytnwch newydd (*The Prince's Farm Resilience Programme*), sy'n cael ei rhoi ar waith mewn pymtheg o leoliadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig i geisio gwella gwytnwch ffermydd. Hon yw rhaglen fwyaf y Gronfa erioed ac angen dybryd sydd wedi ei hysgogi – sy'n arwydd bod modd i ffermydd bychain fod yr un mor llwyddiannus â rhai mawr, ond iddyn nhw gael y math cywir o help i wireddu hynny. Mae'r rhaglen wedi'i anelu at fusnesau ffermio bychain “anodd eu cyrraedd”, ac mae'n dod yn sgil y model llwyddiannus a gafwyd ym menter y Tywysog i'r diwydiant llaeth (*The Prince's Dairy Initiative*) ac argymhellion gwaith ymchwil newydd a wnaethpwyd ym Mhrifysgol Caerwysg.

“Rydyn ni'n hynod o falch o'r gefnogaeth sylweddol a gawsom oddi wrth Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog. Ar ôl cael y grant, rydyn ni wedi gallu parhau'r gwaith o sefydlu ein siop fel llwyfan ar gyfer gwasanaethu a chynnwys cymuned yr ardal am yr 20 mlynedd nesaf” Cyfieithiad o eiriau Liz Morgan, Is-gadeirydd Siop Gymunedol Marchington

Y LLUOEDD ARFOG

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw fel ei gilydd wedi ymrwymo i fod yn gefn i ddynion a gwragedd Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi, ac i'w teuluoedd a'u gwasanaethau cymorth.

Coffadwriaethau Canmlwyddiant Brwydr y Somme

Ar ddydd Sadwrn y 1af o Orffennaf 2016, oedodd trigolion y Deyrnas Unedig i goffâu canmlwyddiant Brwydr y Somme – sef y frwydr pan laddwyd y nifer mwyaf o ddynion yn hanes milwrol Prydain Fawr. Arweiniodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw, yng nghwmni Dug a Duges Caergrawnt, Tywysog Harry a Dug a Duges Caerloyw, y Genedl wrth dalu teyrnged i'r rhai a gollodd eu bywydau. Darllenodd Tywysog Cymru ddarn o lyfr '*The Old Front Line*' John Masefield a gosododd dorch ar y Groes Aberth sydd bellach wrth ymyl olion ffosydd hanesyddol rheng flaen milwyr yr Almaen. Wedi hynny, cafodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw gyfle i gwrdd â phlant ysgol o Ffrainc a Phrydain ymhlith beddau'r rheini a gollodd eu bywydau yn ystod y frwydr.

Yn hwyrach yn y diwrnod, roedd Eu Huchelderau Brenhinol yn bresennol mewn seremoni yn Nhŵr Ulster, sydd gerllaw, i gofio am drigolion talaith Ulster a gollodd eu bywydau ym Mrwydr y Somme.

Aeth Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn eu blaen i Beaumont Hamel i gymryd rhan mewn digwyddiad dan arweiniad Canada. Yno, gosododd y Tywysog dorch a darllenodd ddau ddarn, y naill mewn Saesneg a'r llall mewn Ffrangeg. Ar ôl y Gwasanaeth, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i weld oddi fry'r systemau o ffosydd sydd wedi'u cadw.

Ar ddiwedd y dydd, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol i Fynwent Filwrol Carnoy lle y gosododd y Dduges flodau ar fedd ei hen ewythr, Capten Harry Cubitt, a laddwyd yn ystod ail Frwydr y Somme, yn 24 mlwydd oed.

Gorymdaith a Derbyniad Cyflwyno Medalau Reifflau'r Gyrcia Brenhinol

Ar ddydd Mawrth 14eg o Fawrth 2017, ym Mhalas Buckingham ac yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Henry o Gymru, cyflwynodd Tywysog Cymru 154 o fedalau ymgyrchu i'r 2il Fataliwn, Reifflau'r Gyrcia

Brenhinol, ar ôl iddynt ddychwelyd o Ymgyrch Toral. Roedd y digwyddiad yn gyfle hefyd i ddathlu 40 mlwyddiant rôl Tywysog Cymru fel Prif Gynol Reifflau'r Gyrcia Brenhinol.

Ar ôl yr Orymdaith Cyflwyno Medalau, cynhaliwyd derbyniad a oedd yn gyfle i'r Tywysog Harry ailymuno â nifer o'r rhai y bu'n gwasanaethu gyda nhw yn Affganistan yn 2007 ac i gwrdd â nifer o filwyr y Gyrcas a glwyfwyd yn ystod yr ymgyrch yn Affganistan. Cafodd Tywysog Cymru gyfle hefyd i gwrdd â rhai o gyn-filwyr y Gyrcas a'u teuluoedd, gan gynnwys y grŵp sydd wrthi'n cynllunio i ddringo mynydd Everest fel rhan o Gyrcia 200 y Gyrcas ar Everest, y mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithredu fel ei Noddwr.

4ydd Bataliwn y Reifflau'n Dychwelyd Adref

Ym mis Chwefror, roedd y Dduges yn bresennol mewn Gorymdaith ym Marics New Normandy yn Aldershot, Hampshire, yn croesawu milwyr 4ydd Bataliwn y Reifflau a oedd wedi dychwelyd yn ddiweddar o Irac. Y Bataliwn oedd uned gyntaf Byddin Prydain Fawr i gael ei lleoli ar Faes Awyr Al Asad yn Al Anbar, talaith orllewinol Irac. Derbyniodd Ei Huchelder Brenhinol, Cynol Brenhinol y Bataliwn, y salíwt yn ystod yr orymdaith ac aeth yn ei blaen wedyn i dderbyniad i'r dynion a'r merched a fu'n gwasanaethu a'u teuluoedd. Yn ystod ei haraith, dywedodd y Dduges: (cyfieithiad) "Dan yr amgylchiadau mwyaf anodd rydych chi wedi dangos eich sgiliau a'ch brwdfrydedd arferol - waeth beth oedd yr amgylchiadau - ac rwy'n gwybod hefyd y bydd eich synnwyr digrifwch arferol wedi ategu hynny!" Ym mis Tachwedd hefyd, aeth Ei Huchelder Brenhinol i ymweld â theuluoedd y rhai oedd wedi'u lleoli yn Irac.

Dydd Sul y Cofio

Ar ddydd Sul, y 13eg o Dachwedd, ochr yn ochr â'i Mawrhydi'r Frenhines ac Aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol, roedd Tywysog Cymru'n bresennol yng Ngwasanaeth Dydd y Cofio, cyn gosod torch wrth droed y Senotaff a sefyll am 25 munud i fyfyrion am y Meirw Gogoneddus. Wedi hynny, derbyniodd y Tywysog Saliwt y Cyn-filwyr ar barêd Horse Guards wrth i 8,500 o gyn-filwyr orymdeithio o San Steffan ar hyd Birdcage Walk i Horse Guards Road. Wedi hynny, roedd Tywysog Cymru'n bresennol yn Nydd Sul Catrodol y Gwarchodlu Cymreig ym Marics Wellington.

YR AMGYLCHEDD

“I’n cymdeithas allu ffynnu a llwyddo ymhell i’r dyfodol heb sathru’n drychinebus ar ffiniau byd Natur, rhaid i ni ffrwyno’r twf yn y broses o ddefnyddio adnoddau a chwilio am ffyrdd o fyw’n gytûn gyda’r byd sy’n ein cynnal ni.” Cyfieithiad o ddarn o’r llyfr *Climate Change*, un o lyfrau arbenigol cwmni Ladybird, gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, Tony Juniper ac Emily Shuckburgh

Ar ôl bod yn bresennol yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd ym Mharis yn 2015, mae Tywysog Cymru wedi bod wrthi am y 12 mis diwethaf yn parhau i hyrwyddo’r angen dybryd i gymdeithas newid i economi carbon-isel. Mae’r newid yn yr hinsawdd a diraddio’r amgylchedd yn effeithio’n bennaf ar aelodau tlotaf ei n cymdeithasau, ac mae Ei Uchelder Brenhinol wedi gwneud ei orau glas i dynnu sylw at ganlyniadau hyn drwy ei waith ar yr Economi Gylchol sy’n tynnu sylw at felltith llygredd plastig; ar ddatgoedwigo ym mhob rhan o’r byd a’r colli pridd sy’n dod yn sgil hynny; ar hyrwyddo deunyddiau gwlan; a thrwy weithio gyda’r Gymdeithas Fetereolegol Frenhinol i ysgrifennu am y canlyniadau negyddol a chydgyssylltiedig sy’n dod yn sgil tywydd eithafol.

Ymgyrchu dros Wlân (*Campaign for Wool*)

Fel Noddwr yr ymgyrch *Campaign for Wool*, arweiniodd Ei Uchelder Brenhinol ei chynhadledd ryngwladol gyntaf yn Nhŷ Dumfries ym mis Medi. Nod y gynhadledd oedd rhoi hwb i’r rheini sydd wedi bod wrthi dros y blynyddoedd diwethaf yn ceisio gwella statws gwlan ac argraffiadau pobl ohono, ac i annog pobl eraill i ymuno yn yr ymgyrch ac i’w chefnogi. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yn y digwyddiad oedd pobl sy’n flaenllaw yn y farchnad wlân fyd-eang fel Steve Rowe, Prif Weithredwr Marks & Spencer; Syr Paul Smith, y cynllunydd ffasiwn sy’n enwog ar hyd a lled y byd; David Gandy, sy’n fodel ac yn entrepreneur; a Max Whitlock, y mabolgampwr a enillodd fedalau aur yn y Gemau Olympaidd ac a roddodd berfformiad o gampau acrobatig yn ystod y gynhadledd tra’r oedd yn gwisgo siwt wlân a ddyluniwyd gan Syr Paul Smith er mwyn dangos nodweddiad hyblyg y ffibr. Ar ddiwedd y gynhadledd, llofnododd yr aelodau Ddatganiad Tŷ Dumfries fel arwydd eu bod yn ymrwymo’u hymdrechion, eu hamser a’u talentau i hybu a hyrwyddo priodoleddau naturiol gwlan ac i addysgu pobl amdano.

Symposiwm Dylunio Plastig yr Uned ar Gynaliadwyedd Rhyngwladol

Mae Uned Tywysog Cymru ar Gynaliadwyedd Rhyngwladol (*The Prince of Wales's International Sustainability Unit* [ISU]) wedi bod yn gweithio ar y cyd â chyrff eraill i geisio deall goblygiadau'r twmpathau cynyddol o blastig sy'n casglu yn y môr, ac i chwilio am ffyrdd o ddatrys y broblem. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu fod ein heconomi 'gwneud, defnyddio, gwaredu' yn golygu taflu wyth miliwn o dunelli metrig o blastig i'r cefnforoedd bob blwyddyn. Mae'r llif hwn o lygredd, sydd i'w weld yn ddi-ddiwedd, yn peryglu bywyd gwylt ac ecosystemau'r môr. Mae ISU, ar y cyd â menter Ei Uchelder Brenhinol ar Fusnes yn y Gymuned, wedi crynhoi dylunwyr o rai o frandiau mwyaf y byd, ynghyd â gweithwyr proffesiynol ac uwch swyddogion maes cynaliadwyedd i drafod ffyrdd gwell o ddylunio cynnyrch sy'n aros yn yr economi ac allan o'r môr. Yn ystod y symposiwm ar ddylunio plastig, gwrandawodd y Tywysog ar farn uwch-gynrychiolwyr y cwmnïau ac roedd pawb yn cytuno y dylai rhanddeiliaid o bob rhan o'r gadwyn gwerth plastig weithio gyda'i gilydd i greu system atebolrwydd sy'n fwy cydgysylltiedig, tryloyw a syml.

Confensiwn yr ISU (yr Uned ar Gynaliadwyedd Rhyngwladol) ar Goco

Ar ddydd Iau yr 16eg o Fawrth, casglodd Tywysog Cymru brif weithredwyr ac uwch-gynrychiolwyr deuddeg o gwmnïau cynhyrchu coco a siocled mwyaf y byd at ei gilydd mewn cyfarfod yng nghanol Llundain. Ymrwymodd y cwmnïau, sy'n cynrychioli dros 80% o farchnad goco'r byd, i roi diwedd ar ddatgoedwigo a diraddio fforestydd yn y gadwyn gyflenwi coco.

Uned y Tywysog ar Gynaliadwyedd Rhyngwladol (ISU) a drefnodd y cyfarfod a sicrhau'r ymrwymiad, drwy weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad y byd ar goco (*World Cocoa Foundation*) a'r fenter ar fasnachu cynaliadwy (*Sustainable Trade Initiative* neu IDH). Yn bresennol hefyd oedd rhai o weinidogion llywodraethau Ghana a'r Deyrnas Unedig, ar y cyd ag uwch-swyddogion o lywodraethau'r Iseldiroedd, yr Almaen a Norwy ac uwch-gynrychiolwyr cyrff rhyngwladol.

“Mae nifer o resymau dros ddweud mai hon, yn y bôn, yw'r ffordd iawn o weithredu. Rydw i wedi ymrwymo'n gadarn ers llawer o flynyddoedd i ddiogelu fforestydd glaw trofannol y byd. Maen nhw'n chwarae rhan gwbl hanfodol, yn

fyd-eang ac yn lleol fel ei gilydd, yn y broses o leddfu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac o addasu i'r newid. Ond efallai mai'r rheswm uniongyrchol mwyaf grymus dros weithredu yw bod datgoedwigo'n bygwth tanseilio gwytnwch y sector coco ei hun ac, yn sgil hynny, bywoliaeth y miliynau o dyddynwyr sy'n dibynnu arno, gan fod colli fforestydd yn gwneud yr hinsawdd yn fwy cyfnewidiol.” Cyfieithiad o sylwadau Tywysog Cymru yn ystod y cyfarfod

Urdd Ffrainc ar Deilyngdod Amaethyddol

Ym mis Mawrth, cafodd Ei Uchelder Brenhinol, sydd ei hun yn ffermwr ac wedi bod yn hyrwyddo cymunedau gwledig ers tro byd, ei urddo gan Urdd Ffrainc ar Deilyngdod Amaethyddol – un o brif urddau'r wlad – ar sail ei ymroddiad i les cymunedau amaethyddol, ei waith yn hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o amaethu a'i ymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Dyfarniad fel Arweinydd y Byd ar Newid

Y llynedd, dyfarnwyd i Dywysog Cymru'r wobwr am arwain y byd ar newid (enw'r dyfarniad oedd 2016 *Eco-Age Global Leaders of Change Award*) am “Gyfraniad eithriadol Ei Uchelder Brenhinol i waith cadwraeth a diogelu amgylcheddol ar hyd a lled y byd, ac am ei weledigaeth angerddol o blaid dyfodol gwell i ddynoliaeth”. Roedd y dyfarniad yn cydnabod gwaith elusennol Ei Uchelder Brenhinol a'i gysylltiadau â'r sector preifat yn y dasg o chwilio am atebion i'r pethau sy'n herio'r amgylchedd, gan dynnu sylw arbennig at ei waith ar ddiogelu fforestydd glaw a bywyd gwyllt. Cyflwynwyd y dyfarniad gan Livia Firth, sefydlydd menter Her y Carped Gwyrdd (*Green Carpet Challenge*), yn Nhŷ Clarence.

“Roeddwn i'n poeni'n arw am ddirywiad y diwydiant ffermio llaeth yn yr Alban, ac roeddwn i, fel y cynhyrchwyr eraill yn Ayrshire, yn ystyried ffyrdd o ennill incwm. Helpodd Menter y Tywysog i'r Diwydiant Llaeth (The Prince's Dairy Initiative) fi i edrych mewn ffordd wahanol ar fy musnes ac fe wnes i ddechrau amrywio ein dulliau gweithio. Fe gyflwynon ni bethau newydd fel dilyn patrwm cylchdro o bori, agor siop fferm newydd i werthu llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd a rhoi llaeth i'r ysgol goginio yn Nhŷ Dumfries. Ein

cam nesaf yw ystyried y posibilrwydd o fynd yn fferm organig wedi'i hachredu'n llawn er mwyn parhau i symud yn ein blaenau." Cyfieithiad o eiriau Bryce Cunningham, un o'r rhai a fu'n cymryd rhan ym Menter y Tywysog i'r Diwydiant Llaeth.

"Hoffwn ddiolch i Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog ac i Gyfarwyddwyr y Cwrs. Bu'r cwrs yn un o brofiadau gorau fy mywyd hyd yn hyn. Bydd y ffrindiau a'r cysylltiadau diwydiannol rydw i wedi'u gwneud yn aros yn agos ac yn fy arwain drwy ba bynnag fath o ddyfodol sydd i amaethyddiaeth. Mae cynnwys y cwrs wedi bod yn wirioneddol ryfeddol. Gadewais yn teimlo bod pob carreg wedi cael ei throi ond, petawn i'n dod ar draws un sydd heb ei throi, rydw i erbyn hyn yn adnabod rhywun a allai roi'r ateb i mi." Cyfieithiad o eiriau James Nightingale, un o'r dirprwyon ar y rhaglen Datblygu Busnes Fferm a redir gan Goleg Bishop Burton

Llyfr *Ladybird*

Ar ôl ei anerchiad yn ystod seremoni agor yr Uwchgynhadledd ym Mharis ar Newid yn yr Hinsawdd ym mis Tachwedd 2015, dechreuodd Tywysog Cymru weithio ar ganllaw i'r pwnc mewn Saesneg clir. Ar ôl cydnabod nad oedd gan lawer o bobl ddigon o amser a chyfle i astudio'r wyddoniaeth sy'n sail i'r newid yn yr hinsawdd, a goblygiadau'r newid hwnnw, ymunodd y Tywysog â dau arbenigwr, sef Dr. Tony Juniper a Dr. Emily Shuckburgh, i greu llyfryn â darluniau sy'n disgrifio achosion y newid yn yr hinsawdd a'r cysylltiadau rhwng y newid a gweithgareddau pobl, y canlyniadau y gallwn ni eu disgwyl, yr heriau y bydd pobl yn eu hwynebu a'r camau gweithredu y gallwn ni eu cymryd er mwyn osgoi'r effeithiau gwaethaf.

Aeth chwech o gyfoedion arbenigol ati i adolygu'r llyfr, yn unol â'r gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gyhoeddi papurau gwyddonol, ac ym mis Ionawr 2017 cyhoeddwyd y llyfr gan y cyhoeddwyr Ladybird Books fel rhan o gyfres newydd o ganllawiau i oedolion. Aeth y llyfr ar unwaith i restr y papur newydd *The Sunday Times* o'r llyfrau sy'n gwerthu'n dda, yn ystod yr wythnos y'i rhyddhawyd, ac arhosodd ar y rhestr am sawl wythnos wedi hynny. Er mai at oedolion y mae'r llyfr wedi'i anelu'n bennaf, mae wedi'i ysgrifennu mewn ffordd hawdd ei darllen a fydd yn ennyn diddordeb plant.

INCWM, GWARIANT A STAFF 2016/17

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y caiff gweithgareddau swyddogol a phreifat Tywysog Cymru a Duges Cernyw eu hariannu. Mae'r rhan fwyaf o'r costau staff a'r gwariant ar weithgareddau swyddogol ac elusennol, gan gynnwys swyddfeydd swyddogol Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, yn cael eu talu o incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol o Ddugaeth Cernyw.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2017 £000oedd	2016 £000oedd
Incwm ac ariannu		
Dugaeth Cernyw	20,719	20,467
Grant Sofran	1,339	965
Adrannau'r Llywodraeth	461	470
Cyfanswm incwm ac ariannu	22,519	21,902
Costau Swyddogol		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	(9,092)	(9,130)
Y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	(414)	(307)
Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	(925)	(658)
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	(461)	(470)
Gwarged ar ôl tynnu'r costau swyddogol	11,627	11,337
Costau Eraill		
Trethi (gan gynnwys TAW)	(4,757)	(5,014)
Gwariant answyddogol	(3,098)	(2,754)
Ariannu gweithgareddau Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, gwariant arall gan gynnwys gwariant cyfalaf a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(3,529)	(3,249)
Gwarged ariannol net	243	320

1. INCWM AC ARIANNU

Incwm ac ariannu

(Cyfanswm £22.519m)

- Incwm o Ddugaeth Cernyw
- Ariannu drwy Grant Sofran ac Adrannau'r Llywodraeth

Income and Funding

(Total £22.519m)



- Income from Duchy of Cornwall
- Funding from the Sovereign Grant and Government Departments

Dugaeth Cernyw

£20.719 miliwn

Daw incwm preifat Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw, ystâd sy'n cynnwys eiddo amaethyddol, masnachol a phreswyllo yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Mae portffolio o fuddsoddiadau ariannol gan y Ddugaeth hefyd. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio'r rhan fwyaf o'i incwm o'r Ddugaeth i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a gwaith Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. O gymharu â'r llynedd, bu cynnydd o 1.2% yn yr incwm, sy'n golygu bod y refeniw o Ddugaeth Cernyw wedi parhau i dyfu'n gynaliadwy dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae cyfrifon blynyddol Dugaeth Cernyw i'w gweld ar-lein ar www.duchyofcornwall.org.

Ariannu drwy Grant Sofran

£1.339 miliwn

Mae'r ariannu drwy Grant Sofran yn talu costau swyddogol dau faes penodol sy'n codi yn sgil y gwaith o gynorthwyo'r Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth. Y ddau faes yw Gwasanaethau Eiddo a Theithio. Mae cynnydd o £267,000 wedi bod yn y costau teithio i gyflawni ymrwymadau swyddogol. Mae'r ffigur yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall ac yn dibynnu ar y gwledydd mae Llywodraeth Ei Mawrhydi'n gofyn i'w Huchelderau Brenhinol ymweld â nhw ar ei rhan. Mae'r costau swyddogol sy'n berthnasol i'r swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain wedi cynyddu o £107,000 wrth i raglen dreigl o waith ailwampio barhau. Fel yr esboniwyd uchod, Dugaeth Cernyw sy'n ariannu holl gostau eraill Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. Mae rhagor o fanylion am y Grant Sofran i'w cael ar www.royal.gov.uk neu drwy anfon cais at Ddirprwy Drysorydd y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain SW1A 1AA.

Adrannau'r Llywodraeth

£0.461 miliwn

Yn achos Tywysog Cymru a Duges Cernyw, Adrannau'r Llywodraeth sy'n talu am y gwariant ar gostau staff a secondiwyd o'r Gwasanaethau Arfog, ynghyd â rhai o gostau ymweliadau tramor swyddogol a wneir ar gais Llywodraethau Ei Mawrhydi.

2. ALLYRIADAU O NWWYON TŶ GWYDR

ALLYRIADAU O NWWYON TŶ GWYDR

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2017	2016*
Allyriadau cyfwerth o CO ₂	Tunelli metrig	Tunelli metrig
Defnydd swyddfeydd a chartrefi o ynni	155	162
Teithio swyddogol a theithio arall yn y Deyrnas Unedig	964	894
Allyriadau'r Aelwyd	1,119	1,056
Teithio tramor swyddogol	584	1,101

*Ail-gyfrifwyd ffigurau 2016 ar deithio a'r defnydd o ynni – cyfeiriwch at y nodiadau sy'n dilyn a'r adroddiad ar garbon am ragor o fanylion

Allyriadau cyfwerth o CO₂

(Tunelli metrig)

- Teithio tramor swyddogol
- Teithio swyddogol a theithio arall yn y Deyrnas Unedig
- Defnydd swyddfeydd a chartrefi o ynni

CO₂e Emissions

(Tonnes)



- Overseas official travel
- UK official and other
- Office and domestic energy use

Mae allyriadau'r Aelwyd wrth ddefnyddio ynni wedi gostwng eleni o 4%. Ar ôl cyfuno'r ffigur hwn â'r allyriadau sy'n deillio o deithio swyddogol yn y

Deyrnas Unedig, categorïau eraill o deithio a theithio i wledydd tramor, mae gostyngiad o 21% wedi bod yn y cyfanswm eleni.

Bydd cyfanswm yr allyriadau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac yn dibynnu ar bellter y teithiau mae Eu Huchelderau Brenhinol yn eu gwneud ar gais Llywodraeth Ei Mawrhydi neu Lywodraeth(au) Teyrnasoedd eraill Y Frenhines. Y nod yw cadw'r allyriadau'n isel drwy roi sylw i garbon yn ogystal â chostau, diogelwch a logisteg wrth gynllunio teithiau.

Eleni, mae'r Aelwyd wedi parhau i fuddsoddi mewn ynni carbon-isel drwy osod ail set o baneli solar yn Nhŷ Clarence. Gyda'i gilydd, mae'r ddwy set yn gallu cynhyrchu dros 12kW o bŵer ar adegau brig. Erbyn hyn, mae 100% o'r trydan mae'r Aelwyd yn ei ddefnyddio ac 85% o ynni'r swyddfeydd a'r cartrefi'n dod, yn ei gyfanrwydd, o ffynonellau adnewyddadwy (gan gynnwys trydan adnewyddadwy a Nwy Gwyrdd). Cynhyrchir ychydig yn llai na hanner yr ynni hwn ar y safle drwy ddefnyddio paneli solar, boeleri biomas a phympiau gwres. Mae mwy o fanylion yn y prif adroddiad ar gynaliadwyedd (*Sustainability Report*).

Mae'r holl allyriadau'n cael eu gwrthbwysu drwy brynu credydau o brojectau coedwigaeth gynaliadwy.

3. GWARIANT

Gwariant a Threthi

(Cyfanswm £22.276m)

- Gwariant swyddogol
- Trethi
- Gwariant answyddogol
- Ariannu gweithgareddau Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, gwariant arall gan gynnwys gwariant cyfalaf, a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn

Expenditure and Tax

(Total £22.276m)



- Official Expenditure
- Taxation
- Non-official expenditure
- Funding for the activities of The Duke and Duchess of Cambridge and Prince Harry, other expenditure including capital expenditure, and transfer to reserve

Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol **£9.092miliwn**

Gwariwyd dros 57 y cant o'r incwm ar ôl treth y mae Tywysog Cymru'n ei gael o Ddugaeth Cernyw, ar ddyletswyddau swyddogol ac elusennol.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi'n uniongyrchol 143 o staff sy'n cyfateb i amser llawn. O'r rhain, mae 124.4 yn cynorthwyo'u Huchelderau Brenhinol wrth iddynt ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol, ac mae 18.6 yn staff personol neu'n staff garddio a ffermio. Mae'r tabl yn yr adran

‘Staff’ yn rhestru’r staff swyddogol yn ôl adran yr Aelwyd ac yn rhoi cyfanswm costau’r naill adran a’r llall, gan gynnwys cyflogau a gwariant arall.

Ariannu drwy Grant Sofran: Y swyddfa a’r cartref swyddogol yn

Llundain:

£0.414 miliwn

Tŷ Clarence yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn Llundain. Defnyddir y tŷ ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd swyddogol, ac mae’n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae’r prif ystafelloedd ar lawr gwaelod Tŷ Clarence ar agor i’r cyhoedd rhwng mis Awst a diwedd mis Medi bob blwyddyn. Mae gan yr Aelwyd swyddfeydd eraill mewn rhannau eraill o Balas St James. Y Grant Sofran ar gyfer cartrefi swyddogol sy’n talu costau cynnal a chadw Tŷ Clarence a chostau’r swyddfeydd eraill ym Mhalas St James.

Ystadegyn: Gwariwyd dros 57 y cant o incwm ar-ôl-treth Tywysog Cymru ar ddyletswyddau swyddogol ac elusennol.

Ariannu drwy Grant Sofran: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau

£0.925 miliwn

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw, ar y cyd â Duges Cernyw, dod â phobl at ei gilydd yn y gwahanol rannau o’r Deyrnas Unedig, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl a chynrychioli’r wlad mewn gwledydd tramor. Mae hyn yn golygu llawer o deithio y mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy’n ateb y gofynion cyflwyno. Yn 2016-17, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol dros 33,000 o filltiroedd wrth deithio i gyflawni ymrwymadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor ar ran y Llywodraeth. Roedd tua hanner y milltiroedd yn golygu teithio mewn gwledydd tramor. Y Grant Sofran oedd yn talu’r rhan fwyaf o gostau’r teithiau i wledydd y tu allan i’r Deyrnas, sef cyfanswm o £0.925 miliwn yn 2016-17. Y gwledydd eu hunain sy’n talu’r rhan fwyaf o’r costau teithio i wledydd y Deyrnas.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y costau amrywiol yn unig ar gyfer teithiau'n defnyddio Sgwadron 32, Hofrennydd Y Frenhines a'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau sefydlog yr awyrennau a'r trê'n yn digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, ac nid ydynt yn dod yn sgil mynd ar unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn o hyn yn Adroddiad Blynyddol 2016-17 ar y Grant Sofran sydd ar gael ar www.royal.gov.uk.

Roedd yr allyriadau o nwyon tŷ gwydr a oedd yn deillio o deithiau swyddogol yn 1,090 o dunelli metrigr. Roedd y swm yn cynnwys 584 o dunelli metrigr a ddeilliodd o deithio mewn gwledydd tramor.

Teithiau tramor ac eilwyr milwrol

£0.461 miliwn

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau'r ymweliadau tramor swyddogol gan Dywysog Cymru a Duges Cernyw (ac eithrio'r costau teithio a ddaw drwy Grant Sofran ar gyfer teithiau swyddogol mewn awyrennau a threnau).

Mae dau aelod o Swyddfa'r Gwastrodion ac un o'r Swyddogion Negesau wedi'u secondio'n swyddogol o'r Lluoedd Arfog i helpu Tywysog Cymru a Duges Cernyw i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Trethi

£4.757 miliwn

Ar ôl tynnu costau'r gwariant swyddogol, mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw, gan gadw at y rheolau treth incwm arferol ac ar y raddfa o 45 y cant. Fel unrhyw unigolyn preifat, mae'r Tywysog hefyd yn talu treth ar bob incwm arall a threth ar enillion cyfalaf. Mae'r swm o £4.757 miliwn yn cynnwys TAW. O gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogwr, a'r Dreth Gyngor, mae'r cyfanswm yn codi i £5.5 miliwn.

Ystadegyn: Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw, gan gadw at y rheolau treth incwm arferol ac ar y raddfa o 45 y cant.

Gwariant answyddogol

£3.098 miliwn

Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, ac am rai gweithgareddau elusennol ac atebolrwydd y Tywysog i dalu trethi, mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw hefyd yn talu am gostau gwariant answyddogol Tywysog Cymru a'i deulu.

Mae'r gwariant answyddogol yn cynnwys costau cyflogi 8.3 o aelodau staff personol sy'n cyfateb i amser llawn, sy'n cynnwys ysgrifenyddion personol, pen-cogyddion a gweision. Yn ogystal â'r rhain, mae 10.3 o aelodau staff sy'n cyfateb i amser llawn yn gweithio ar yr ystâd a'r ffermydd, ac yn y gerddi a'r stablau. Mae'r gwariant personol hefyd yn cynnwys y gyfran briodol o gostau Tŷ Highgrove yn Swydd Gaerloyw a Birkhall ar Ystâd Balmoral yn yr Alban, a chostau cynnal yr ystâd a'r gerddi yn Highgrove. Mae'r ardd yn ased elusennol gwerthfawr, a daeth dros 39,500 o bobl i'w gweld y llynedd, gan godi dros £660,000 at achosion elusennol.

Mae costau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Ystâd Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn. Fferm weithio yw Home Farm a sefydlwyd gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n deillio o ffermio'n organig ac yn gynaliadwy. Daeth tua 900 o bobl i'w gweld y llynedd.

4. STAFF

Fel yr oeddent ar 31 Mawrth, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad	Staff sy'n cyfateb i amser llawn 2017	Costau Swyddogol £000oedd 2017
Prif Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwyr	3.0	
Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat		
Ysgrifennydd Preifat	1.5	
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat ac Ysgrifenyddion Cynorthwyl	5.6	
Staff Ymchwilio a Gweinyddu	14.9	
Gohebiaeth	4.0	
Adnoddau Dynol	7.0	
Ysgrifenyddion Wrth Gefn	2.0	
	38.0	3,080
Adran y Trysorydd		
Trysorydd a Chynorthwyr	4.0	
Cyllid	7.6	
Archifau a Rhestru Eiddo	5.8	
	17.4	1,532
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwyr	2.6	
Ysgrifenyddion Cyfathrebu Cynorthwyl a Dirprwyl	2.0	
Swyddogion Cyfathrebu ac Ymwneud Digidol	5.0	
	9.6	760
Adran Meistr yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwyr	4.5	
Gwastrawd	1.0	
Cydgysylltwyr Rhaglenni a Theithio	4.6	
Bwtleriaid	1.3	
Pen-cogyddion a Phorthorion y Gegin	4.8	
Swyddogion Negesau	5.7	
Derbynfa	1.0	
Gyrwyr	3.0	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	9.9	
Gweision a Gwisgwyr	2.5	
Garddwyr a Gweithwyr Ystâd	21.1	
	59.4	3,720
Cyfanswm y Staff Swyddogol ar 31 Mawrth 2017	124.4	9,092

GWEITHIO I'R AELWYD

Mae Aelwyd Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cyflogi pobl mewn amryw o wahanol ddisgyblaethau, sydd â gwahanol fathau o sgiliau i gynorthwyo Eu Huchelderau Brenhinol i gyflawni eu rôl amlwg mewn bywyd cyhoeddus. Fel cyflogwr, mae'r Aelwyd yn falch o allu dweud ei bod wedi ymrwymo i'w staff, gan annog yr unigolion sy'n gweithio iddi i ddatblygu a ffynnu.

Mae'r Aelwyd wedi croesawu interniaethau haf; lleoliadau profiad gwaith ac ymweliadau gan ysgolion, er mwyn helpu pobl i ddeall natur gweithio yn y mudiad bywiog hwn.

5. ELUSENNAU'R TYWYSOG

Ers hanner canrif mae Tywysog Cymru wedi gweithredu fel arweinydd yn y gwaith o adnabod angen elusennol a sefydlu elusennau i ddiwallu'r angen hwnnw a hybu eu gwaith.

Mae Tywysog Cymru'n cyflawni dwsinau o ymrwymadau bob blwyddyn er mwyn hybu gwaith ei elusennau. Cododd Elusennau'r Tywysog, fel grŵp, swm o £170 miliwn i drawsnewid bywydau a chreu cymunedau cynaliadwy ar hyd y Deyrnas Unedig a thramor fel ei gilydd.

Un o Elusennau'r Tywysog yw Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru (PWCF neu *The Prince of Wales's Charitable Foundation*), a sefydlwyd gan Dywysog Cymru yn 1979. Rhoddir i'r Sefydliad yr holl elw sy'n deillio o werthu cynnyrch '*Waitrose Duchy Organic*' a chynnyrch Highgrove, ac o'r teithiau o amgylch y gerddi yn Highgrove. Mae'r Sefydliad yn gweithredu fel corff dyfarnu grantiau sy'n hybu gwaith dewis helaeth o wahanol achosion, ac sy'n gweithredu fel cyfrwng hybu ar gyfer mentrau a phrojectau.

Mae Tywysog Cymru hefyd wedi sefydlu sefydliadau elusennol yn Awstralia, Canada, Rwmania ac Unol Daleithiau America.

I ddysgu mwy, ewch i'r wefan www.princeofwalescharitablefoundation.org.uk